Dydd Sul 19/9/21	**9:45yb Mawl y Bore**	**5:00yh Hwyrol Weddi ar-lein**
Arwain	Mark	Mark
Blodau		
Cyfeilio	Aeron	
Darllen	Pedr	Mair
Darlleniadau	*Jeremeia 11: 18-20; Actau 21: 1-16*	*Exodus 19: 10-25; Mathew 8: 23-34*
Gweddïau	Robert	Michael
Lluniaeth	Tony a Jeff	
Pregethu	Jamie	Mark

Dydd Sul 26/9/21	**9:45yb Cymun Bendigaid**	**5:00yh Hwyrol Weddi ar-lein**
Arwain	Mark	Mark
Blodau		
Cyfeilio	Aeron	
Darllen	Non	Robert
Darlleniadau	*Numeri 11: 4-6, 10-16, 24-29; Actau 21: 17-36*	*Exodus 24; Mathew 9. 1-8*
Gweddïau	Menna	Mair
Lluniaeth		
Pregethu	Mark	Enid

24/10/21	9:45yb	Gwasanaeth Diolchgarwch gyda Cynan Llwyd
14/11/21	9:00yb	Brecwast i bawb
29/11/21	7:00yh	Cyfarfod Pwyllgor y AWL
25/12/21	9:45yb	Cymun y Nadolig

Gweinidog:

Parch. Mark Ansell, Fenton, Maes y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2HL. 01970 617184 eglwysfair@gmail.com (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)

Gweinidogion eraill:

Parch. Cei Rees, 01970 617184 cei@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)
Parch. Liz Rees, 01970 617184 liz@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)
Parch. Becky Evans, 01970 617184 becky@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)
Parch. Robert Wilkinson, 01970 617184 robert@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Iau)

Eglwys y Santes Fair

y Gair
y Groes
y Gymraeg

19eg o Fedi 2021

9:45yb **Mawl y Bore**

5:00yh **Hwyrol Weddi** ar-lein

CROESO

Croeso i Eglwys y Santes Fair!

Diolch am ddod heddiw. Gobeithio eich bod chi'n gallu aros i gael paned gyda ni ar ddiwedd y gwasanaeth.



Bydd yr Ysgol Sul i blant a phobl ifanc yn ailddechrau cyn bo hir.

Mae system dolen anwytho yn yr eglwys. Trowch eich teclyn clyw i'r gosodiad pwrpasol.

Ein Nod

Yn Eglwys y Santes Fair...
rydym yn **creu cymuned** sy'n **caru'n cymdeithas** er mwyn **cyflwyno Crist**.

Gweddi Eglwys y Santes Fair

Arglwydd Iesu,
addewaist adeiladu dy eglwys.
Felly, os gweli di fod yn dda, adeilada dy eglwys yn ein plith.
Cymorth ni i ddyfnhau ein perthynas â thi, a chynydda'r nifer o Gristnogion newydd sy'n addoli yma trwy gydol y flwyddyn, er mwyn dy anrhydedd yn y plwyf hwn. **Amen**.

www.eglwysfair.cymru

Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth @eglwysfair

Newyddion Teulu'r Eglwys

Gwasanaethau ar-lein

Mae gwasanaeth ar-lein am 5:00yh bob nos Sul drwy raglen Zoom. Bydd angen rhif y cyfarfod – sef 964 3320 1895 – a'r cyfrinair, sef 1588. Gallwch ymuno drwy ffôn hefyd: Ffoniwch - 0203 051 2874 ac wedyn rhowch rhif y cyfarfod, wedyn yr allwedd #, wedyn 1588 wedyn # eto.

Afghanistan

Mae *Tearfund wedi* lansio apêl i helpu pobl cyffredin Afghanistan. Os ydych chi am gyfrannu edrychwch ar wefan Tearfund, neu rhowch eich cyfraniad yn y basged yng nghefn yr Eglwys.

Angladd

Cynhelir angladd Celia Davies yn yr Eglwys ddydd Llun 27ain o Fedi am 1:00yp. Croeso i bawb.

Te a Choffi

Mae'n hyfryd ein bod ni'n gallu mwynhau paned gyda'n gilydd ar ddiwedd y gwasanaeth. Os ydych chi'n gallu helpu darparu lluniaeth ar ôl y gwasanaethau rhowch wybod - rydym yn creu rota o'r rhai sy'n gallu helpu ar hyn o bryd.

Jeremeia 11: 18-20

18 Yr ARGLWYDD a'm hysbysodd, a mi a'i gwn;
dangosodd i mi eu gweithredoedd. 19 Yr oeddwn
innau fel oen tyner yn cael ei arwain i'w ladd, ac ni
wyddwn mai ar fy nghyfer i y gosodent gynllwynion,
gan ddweud, "Distrywiwn y pren a'i ffrwyth; torrwn
ef ymaith o dir y rhai byw, fel na chofir ei enw mwy."

20 O ARGLWYDD y Lluoedd, barnwr cyfiawn, chwiliwr y
galon a'r deall, rho i mi weld dy ddialedd arnynt,
canys i ti y datguddiaf fy nghwyn.

Actau 21: 1-16

Taith Paul i Jerwsalem

1 Wedi i ni ymadael â hwy a chodi angor, daethom ar
union hynt i Cos, a thrannoeth i Rhodos, ac oddi yno i
Patara. 2 Cawsom long yn croesi i Phoenicia, ac
aethom arni a hwylio ymaith. 3 Wedi dod i olwg
Cyprus, a'i gadael ar y chwith, hwyliasom ymlaen i
Syria, a glanio yn Tyrus, oherwydd yno yr oedd y llong
yn dadlwytho. 4 Daethom o hyd i'r disgyblion, ac aros
yno saith diwrnod; a dywedodd y rhain wrth Paul
trwy'r Ysbryd am beidio â mynd ymlaen i Jerwsalem.
5 Ond pan ddaeth ein dyddiau yno i ben, ymadawsom
ar ein taith, a phawb ohonynt, ynghyd â'u gwragedd
a'u plant, yn ein hebrwng i'r tu allan i'r ddinas.
Aethom ar ein gliniau ar y traeth, a gweddïo, 6 a
ffarwelio â'n gilydd. Yna dringasom ar fwrdd y llong, a
dychwelsant hwythau adref.

7 Daeth ein mordaith o Tyrus i ben wrth inni
gyrraedd Ptolemais. Cyfarchasom y credinwyr
yno ac aros un diwrnod gyda hwy. 8 Trannoeth,
aethom ymaith a dod i Gesarea; ac aethom i
mewn i dŷ Philip yr efengylwr, un o'r Saith, ac
aros gydag ef. 9 Yr oedd gan hwn bedair merch
ddibriod, a dawn proffwydo ganddynt. 10 Yn
ystod y dyddiau lawer y buom gydag ef, daeth
dyn i lawr o Jwdea, proffwyd o'r enw Agabus.
11 Daeth atom, a chymryd gwregys Paul, a
rhwymo'i draed a'i ddwylo ei hun, a dweud,
"Dyma eiriau'r Ysbryd Glân: 'Y gŵr biau'r
gwregys hwn, fel hyn y rhwyma'r Iddewon ef yn
Jerwsalem, a'i draddodi i ddwylo'r
Cenhedloedd.' " 12 Pan glywsom hyn,
dechreusom ni a phobl y lle erfyn arno i beidio
â mynd i fyny i Jerwsalem. 13 Yna atebodd Paul,
"Beth yr ydych yn ei wneud, yn wylo ac yn torri
fy nghalon? Oherwydd yr wyf fi'n barod, nid yn
unig i gael fy rhwymo, ond hyd yn oed i farw, yn
Jerwsalem, er mwyn enw'r Arglwydd Iesu." 14 A
chan nad oedd modd cael perswâd arno,
tawsom gan ddweud, "Gwneler ewyllys yr
Arglwydd."

15 Wedi'r dyddiau hyn, gwnaethom ein
paratoadau a chychwyn i fyny i Jerwsalem; 16 ac
fe ddaeth rhai o'r disgyblion o Gesarea gyda ni,
gan ddod â ni i dŷ'r gŵr yr oeddem i letya gydag
ef, Mnason o Cyprus, un oedd wedi bod yn
ddisgybl o'r dechrau.